

Cyngor Cymuned Llanelian (325)

Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 14 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Arfon Morgan, Cyng. Aled Jones, Ian Evans (hwyr), Carli Evans Thau (Clerc),

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones, Thomas Jones, Hefina Williams (problemau technegol)

Yn absennol: Cyng Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb

Helen Hughes – Llwybr Lletroed i'r Mynydd(Llwybr Cadi Rondol)

Arfon Morgan – Cais Cynllunio Bod Hyfryd (cymydog agos ac yn yr un busnes)

Cadarnhawyd bod y clercc yn cadw cofnod o ddatganiadau'r aelodau a bydd angen arwyddo'r ffurflenni datgan diddordeb pan fydd yn bosib gwneud hynnu.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 2/6/2020. Cynnig Helen Hughes, eilio Arfon Morgan. Nododd Dafydd Griffiths mai dim ond 20mya oedd ganddo mewn golwg (eitem 9), y clercc i wirio'r nodiadau o'r cyfarfod.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 9/6/2020. Cynig Dafydd Griffiths, unfrydol hapus.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Stryd y Capel – nodwyd bod CSYM wedi cytuno gosod 'dropped kerbs' a phaentio llinellau gwyn ger giatiaau Capel Carmel a'r Fynwent. Cadarnhawyd bod gwaith i drina thrwsio'r 'gullies' ger Dinorben Terrace wedi ei gwblhau erbyn hyn ynghyd a thrwsio'r lon ger Stad Dublin. Mae disgwyl adborth gan CSYM a Dwr Cymru am y beipen dros lon i Dinorben Terrace, er mwy cadarnhau beth yw'r hylif sydd yn dod ohono.

4.2 Cystadleuaeth Bwgan Brain – syniad Hefina Williams oedd hwn, mae 3 beirniad annibynnol wedi eu penodi a naw bwgan wedi eu cofrestru hyd yma. Bydd gwobr o £50 wedi ei rannu i'r tri mwyaf boblogaidd. Mae gan gystadleuwyr tan ddiwedd y mis i gofrestru.

5 Diweddariadau

5.1 **Caeau Chwarae** – Nodwyd bod caeau chwarae yn cael ail agor o ddydd Llun nesaf ymlaen yng Nghymru. Mae disgwyl canllawiau pellach gan y Llywodraeth. Mae rhywun wedi tynnu'r tsiaen a chlo oddi ar giat Lon Tyddyn Waen yn barod. Nododd y clercc ei bod wedi canfod arwydd addas at gyfer yr offer chwarae a byddai yn trefnu ei osod unwaith daw canllaw pellach (templod i'w anfon at yr aelodau drwy ebost. Mae arolwg diogelwch i gymryd lle ddechrau'r wythnos. CT

Nodwyd daw cwynion am dorri gwair yn y caeau chwarae nad yw'r contractiwr yn codi'r gwair ar ei ol yn unol a'r gyundeb. Cytuno cadw golwg a chysylltu ag o os nad yw'r gwair wedi ei gasglu ar ol y toriad nesaf. CT

Cafwyd wybod gan Carol Whitaker bod peth offer wedi cyrraedd ar gyfer y prosiect Cadw Cymru'n Daclus a bod gwaith ar y gweill o gwblhau'r prosiect. CW

Nododd Gordon Hayes ei fod wedi gosod y placiau ar y meinciau erbyn hyn a fod y mainc yn y gysgodfan ym Maes Llwyfo wedi ei drwsio gyda diolch i wirfoddolwyr.

5.2 **Llithrfa** – Cadarnhawyd bod y llithrfa wedi agor 13/7/2020 a bod 17 o oriadau wedi eu dosbarthu hyd yma.

5.3 Mynwent – cadarnhaodd y clerc bod cofnodion cyfarfod pwyllgor y fynwent wedi eu dosbarthu i bawb cyn y cyfarfod er gwybodaeth. Cymeradwywyd y cofnodion a chytuno ar y gwaith oedd wedi ei adnabod. Y clerc i ddrafftio cynllun gwaith cyn cyfarfod gyda contractwyr ar y safle i esbonio disgwyliadau'r cyngor. CT

Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth pellach ynglyn ag arian posib tuag at gynnal bedd penodol yn y fynwent.

Nodwyd bod y giat newydd wedi ei osod erbyn hyn, a'r hen giat wedi ei osod y tu mewn i furiau'r fynwent. Nid yw'r clerc wedi derbyn anfoneb hyd yma. Daw pris am blac llechen i gydnabod rhodd Mrs Mair Morris. Cytuno yn unfrydol derbyn y pris a symud ymlaen. CT

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a Parch. Kevin Ellis ynglyn a'r gwaith arfaethiedig i'r hen fynwent. Mae disgwl canllawiau gan yr Eglwys sut mae gwneud y fath waith. CT

5.4 Cyllid a Pholisi – dim wedi cyfarfod

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – cafwyd brisiau gan Carol Whitaker am brosiect posib i'r cae chwarae. Cytuno cynnal cyfarfod o'r pwyllgor ym mis Awst i drafod yr offer chwarae, meinciau cymunedol a giat y fynwent.

5.6 Pwyllgorau Allannol – dosbarthwyd adroddiad drwy ebost gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod SAIL drwy gynhadledd fideo. Wedi trafod amcanion y pwyllgor, cytuno mai CSYM a Phartneriaeth Cyngorau Gogledd Mon dylai arwain. Gofynnwyd i Dafydd Griffiths ddwyn y mater at sylw'r bartneriaeth i drafod ymhellach. DG

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

Daw pedwar cais at sylw'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf:

- Bryn Mor, Nebo (FPL/2020/74) – cefnogi
- Fairwinds, Llaneilian (FPL/2020/100) – dim gwrthwynebiad i ardd yn y darn ychwanegol
- Bod Hyfryd, Llaneilian (FPL/2020/83) – wedi gwrthod y cais gwreiddiol, ac yn sefyll wrth y penderfyniad.
- Tir ger Gadfa (HR/2020/1) – wedi trafod y cais mewn manylder cytuno gwrthod y cais ar sail effaith ar fywyd gwyllt

CT

6.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- Lletroed (FPL/2019/242) caniatad – roedd yr aelodau yn siomedig gyda'r penderfyniad.
- Coedmor, 4 Penysarn Fawr (HHP/2020/80) – caniatad

6.3 Gorfodaeth –

- Gadfa Newydd – dim diweddariad, ond y swyddogion wedi cydnabod derbyn y ddolen yn hysbysebu'r garafan ar gyfer gwyliau (ad nid at ddefnydd teulu)
- Pyllau Dwr – cadarnhawyd bod cwyn wedi ei gofnodi ond and oedd swyddogion yn gallu ymweld a'r safle oherwydd cyfyngiadau covid-19.

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

- £143.88 Carli Evans Thau (trwydded Zoom)
- £20.00 Poppy Appeal (torch)
- £119.26 Huws Gray (defnydd ar gyfer meinciau)
- £297.00 Anglesey Computer Solutions (gwefan hyd 2022)
- £20.00 JRE Design (arwydd Maes Llwyfo)
- £293.46 Carli Evans Thau (cyflog Mehefin)
- £207.44 Carli Evans Thau (costau Ebrill-Mehefin)
- £200.00 D Holdsworth (caeau chwarae)
- £250.00 D Holdsworth (caeau chwarae)

7.2 Ceisiadau am Arian

Daw cais am gymorth gan Marie Curie. Cytuno peidio a chefnogi gan nad oedd yn fudiad oedd yn weithredol o fewn ardal Llanelian yn benodol a'i fod yn gorff cenedlaethol. Cynnig Ian Evans, eilio Dafydd Griffiths.

7.3 Adroddiad Chwarterol

Cadarnhawyd bod yr aelodau wedi derbyn yr adroddiad drwy ebost cyn y cyfarfod. Ni fu cwestiynnau yn codi ac bu diolch i'r clerch am ei baratoi.

8 Llwybrau

Cafwyd ddiweddariad gan swyddog tramwy CSYM yn cadarnhau bod y cyngor wedi darparu adnoddau i'r tiffeddianwr i drin llwybr Cadi Rondol, a'i fod wedi cael sicrwydd byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan. Bydd yn monitro'r sefyllfa dros y misoedd nesaf. Cadarnhaodd nad oedd gan CSYM bwerau i orfodi'r ffermwr i ail osod y ffens, ond bod posib i CSYM ail osod y ffens ar gost i'r cyngor.

Nodwyd bod rhan o'r llwybr ar goll ar y map llwybrau cyfredol, a bod y llwybr yn rhedeg ar hyn y ffin gyda Chyngor Tref Amlwch. Mae'n debyg bod y llwybr wedi ei golli o dan y llinell yn cadarnhau'r ffin. Mae'r dodrefn ar hyd y llwybr wedi eu cofrestru ar y map. Cytuno gofyn i CSYM wirio'r sefyllfa gan ei fod yn amlwg yn gamgymeriad ac nad oes o reidrwydd angen ail-gofrestru'r llwybr. CT

Diolchwyd i Dafydd Griffiths am ei waith ymchwil yn ymwneud a'r llwybrau. Cydnabuwyd bod nifer o bwyntiau angen sylw, cytuno yn unfrydol ffurfio pwyllgor llwybrau i gwrdd a thrafod, gydag unrhyw argymhellion i'w cyflwyno i'r cyngor llawn. Cytuno byddai trefnu cyfarfod cyntaf y pwyllgor cyn gynted a phosib. Penodwyd yr aelodau canlynol i'r pwyllgor: Y cadeirydd neu'r is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths ac Arfon Morgan. CT

9 Iechyd a Diogelwch

Ers y cyfarfod diwethaf, bu i Carol Whitaker gwyno i Dwr Cymru am arogl ger y maes chwarae yn Lon Tyddyn Waen. Yn dilyn hyn, fe wahoddwyd cynrychiolydd o Dwr Cymru i gwrdd a'r cyngor cymuned mewn cyfarfod arbennig ym mis Awst. Mae ymateb Dwr Cymru wedi ei anfon i bawb drwy ebost, ac fe nodwyd siom yr aelodau na fydd cyfarfod i drafod pryderon ynglyn a system garffosiaeth y pentref. Y clerch i anfon copi o'r ymateb i Cyng Aled Jones i ddilyn i fynu. CT AMJ

10 Arolwg Ffiniau / Boundary Review

Cadarnhawyd bod yr adroddiad wedi ei anfon allan oi'r aelodau drwy ebost. Nodwyd mai'r argynhellion yw cynyddu'r nifer o gynghorwyr sirol ym Mon o 30 i 35. Nid oes newid yn ward Twrcelyn. Ni fu sylw gan yr aelodau.

11 Gohebiaeth

11.1 Cadarnhawyd bod gwybodaeth a ddaw gan CSYM am wahanol wasanaethau a diweddariadau am y sefyllfa Covid-19 yn cael eu hafnon drwy ebost i'r aelodau yn syth.

11.2 Gwaith atal llifogydd – cadarnhawyd derbyn gwybodaeth gan CSYM am waith sydd i'w gwblhau ym Mhengorffwysfa dros yr wythnosau nesaf.

12 Unrhyw Fater Arall

12.1 Nodwyd bod angen strimio ger yr arwyddion ar ben y llithrfa, ac nad oed dposib cael at y main car hyn o bryd. Nododd y clerch mai tir Llys Dulas oedd hwn. Gwirfoddolodd John Griffiths ac Arfon Morgan i dwtio'r ardal. Diolchwyd i Thomas Jones a John Griffiths am eu gwaith i dwtio'r lle cyn tu allan i'r Eglwys yn Llanelian. AM JG

12.2 Nodwyd bod cyflwyr y lon o'r Neuadd WI yn Llanelian hyd Llanelian Road angen sylw. Y Clerch i gysylltu a CSYM. CT

12.3 Cafwyd wybod bod cwynion am y defnydd o'r cae ger Bod Hyfryd ble mae dau gontainer a gwhanol defnyddiau yn cael eu storio. Deallwyd nad oedd caniatad am unrhyw

ddatblygiad yma. Y clerch i wneud ymholiadau.

12..4 Cadarnhaodd y clerch mai yng Ngorffennaf bydd torri llwybrau sydd dim ond yn cael eu torri unwaith y flwyddyn a bod rheini oedd yn cael eu torri dwywaith yn cael eu torri yn y gwanwyn ac eto mis Medi. Mae'n debyg bod y tywydd a diffyg ymwelwyr wedi cael effaith ar y tyfiant.

13 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Medi 8, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 20.50.

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd

CET07/2020